

PWYLLGOR PENODIADAU

Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 9 Medi, 2022

YN BRESENNOL:	Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd) Cynghorwyr Trefor Lloyd Hughes, MBE, Carwyn Jones, Gwilym O. Jones, Gary Pritchard, Robin Williams.
WRTH LAW:	Dirprwy Brif Weithredwr / Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros dro Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid Rheolwr Adnoddau Dynol (CW) Swyddog Pwyllgorau (ATH)
YMDDIHEURIADAU:	Cynghorwyr Glyn Haynes, Ieuan Williams
HEFYD YN BRESENNOL:	Dim

1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddidordeb.

2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Penodiadau a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf, 2022 fel rhai cywir.

3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."

4 DIWEDDARIAD AR Y BROSES RECRIWTIO – PENNAETH DEMOCRATIAETH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid a oedd yn rhoi diweddariad ar y broses recriwtio hyd yma mewn perthynas â'r swydd Pennaeth Democratiaeth ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor.

Nododd yr adroddiad ganlyniad y tri cam cyntaf o'r pum cam yn y broses recriwtio a gytunwyd gyda'r Pwyllgor Penodiadau yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf, 2022 mewn perthynas â'r ymgeiswyr ar y rhestr fer. Cafwyd crynodeb gan y Rheolwr Adnoddau Dynol am ganlyniad y tri cham cyntaf a'r casgliadau y daethpwynt atynt.

Rhoddodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ddiweddariad llafar yn y cyfarfod mewn perthynas â chanlyniad pedwerydd cam y broses recriwtio a oedd

yn cynnwys cyfweiliad proffesiynol. Yn seiliedig ar y broses hyd yma ynghyd â'r casgliadau a wnaethpwyd yn dilyn y cyfweiliadau proffesiynol roedd y swyddogion o'r farn ac yn argymhell y dylai'r ymgeiswyr ar y rhestr fer fynd ymlaen i bumed cam y broses recriwtio sef cyfweiliad ffurfiol efo'r Pwyllgor Penodiadau.

Penderfynwyd parhau yn unol ag argymhellion y Swyddogion y dylai'r ymgeiswyr ar y rhestr fer fynd ymlaen i gael eu cyfweld yn ffurfiol gan y Pwyllgor Penodiadau ar ddyddiad i'w gadarnhau.

**Cynghorydd Llinos Medi
Cadeirydd**

DRAFT